**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher Chwefror 27ain, 2024 am 8.25 yh.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol** | | | |
| Cynghorwyr | S. Roberts<br>R. Barnes | Mrs C. R. Thomas<br>D. Hopkins | Mrs A. J. Evans |
| **Arlein** | P. H. Roberts | | |
| **Ymddiheuriadau** | S. E. Thomas<br>Gollyngiad | Mrs. K.D. L. Davies<br>D . Thomas | |
| **Absennol** | E.W Nicholas | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR Chwefror 27ain, 2024, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.**

**422.**

- **Cais Cynllunio: PL/07177**

**Cyfeiriad; Tir yn Mellions, Heol Ddu, Rhydaman, SA18 2UG**

**Sylwadau:**

Roedd y pwyllgor wedi penderfynu cytuno â'r sylwadau a gyflwynwyd at y porth cynllunio gan y Cynghorydd R. A. Davies yn rinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir Ward Llandybïe, ac i fynegi eu consyrn bod y math yma o ddatblygiad yn anaddas o ystyried y briffordd yn y lleoliad hwn, ynghyd â'r math o heol.

- **Cais Cynllunio; PL/07243**

Cyfeiriad; 15 Llwynybryn, Rhydaman, SA18 2ES

**Sylwadau: Dim**

- **Cais Cynllunio: PL/07257**

Cyfeiriad: Llain 2, Llys Y Nant, Rhydaman, SA18 2TL

**Sylwadau: Dim**

- **Cais Cynllunio: PL/07258**

Cyfeiriad: Tir cyfagos i Erwain, Heol Caerbryn, Penygroes,

**Sylwadau; Dim**

- **Cais Cynllunio: 07/162**

Cyfeiriad: Datblygiad Preswyl – Tir oddiar Heol Waterloo, Penygroes, Llanelli, SA14 7NP

**Sylwadau;**

- Mae Cyngor Cymuned Llandybïe yn gwrthwynebu'r cais oherwydd bod y ffordd fynediad yn gul ac yn agos at Feithrinfa Plant, sy'n meddu ar ardal creche awyr agored, ac at Neuadd Penygroes, a'r ffaith bod llyfrgell gynhoeddus yno.
- Hefyd codwyd gwestiynau ynghylch yr hanes cloddio am lo, a'r nifer o siafftau mwyngloddio ar y safle.
- Teimlwyd hefyd y byddai'r tarfu ar y fath heol gul yn ystod y gwaith datblygu, gyda loriau a cherbydau safle yn teithio yn ôl a blaen, yn gosod baich annerbyniol ar y gymuned leol.

**423.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.35yh.